



**Comisiynydd
Plant Cymru**

Children's
Commissioner
for **Wales**

**Cyllideb Llywodraeth Cymru 2025/26 a hawliau
plant:
Briffiad cyn y drafodaeth yn y Senedd ar 17eg o
Orffennaf**

15 Gorffennaf 2024

Rydym am i Gymru fod y lle gorau posib i blant dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel. Does dim amheuaeth bod gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu heriau digynsail ac ar sail ein sgwrsiau gyda channoedd o deuluoedd trwy ein gwasanaeth cynghori annibynnol a'r miloedd o safbwyntiau rydyn ni'n eu casglu gan blant eu hunain, mae effaith y pwysau ariannol ar wasanaethau cyhoeddus yn cael effaith andwyol ar eu bywydau. Dyma pam mae'n rhaid i Gymru ddefnyddio dull seiliedig ar hawliau dynol plant wrth gyllidebu er mwyn sicrhau ein bod yn mwyafu'r holl adnoddau sydd ar gael i sicrhau ein bod yn darparu'r deilliannau gorau posibl i'n plant.

Mae [adroddiad ymgysylltu Pwyllgor Cyllid y Senedd ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yng nghyllideb ddrafft 2025-26](#) yn rhannu rhai themâu tebyg, yn fwyaf amlwg yng nghyswllt diwygio cymorth ADY ac Addysg, trafniadaeth, a'r angen am sicrhau trefniadau ariannu cynaliadwy yn y tymor hwy.

Cefndir: Comisiynydd Plant Cymru a Hawliau Plant yng Nghymru

- Prif nod Comisiynydd Plant Cymru yw diogelu a hybu hawliau a lles plant. Wrth ymarfer ei swyddogaeth, mae rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae cylch gorchwyl y Comisiynydd yn cwmpasu pob agwedd ar bwerau datganoledig y Senedd, sy'n effeithio ar hawliau a lles plant.
- Cytuniad hawliau dynol rhyngwladol yw CCUHP, ac mae'n berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc hyd at 18 oed.
- Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn nodi bod rhaid i Weinidogion Cymru, wrth ymarfer unrhyw rai o'u swyddogaethau, roi sylw dyledus i ofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol pryd bynnag bydd Gweinidog yn defnyddio'u pwerau i wneud unrhyw benderfyniad. Mae hynny'n cynnwys y broses gyllidebol.

Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant (CRIAs) a Dyletswydd Sylw Dyledus

- Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) i ddarparu tystiolaeth o sut maen nhw wedi rhoi sylw i hawliau plant wrth wneud eu penderfyniadau. Dylai CRIAs nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol polisïau ar hawliau plant. Yn achos unrhyw effaith negyddol, dylid rhoi manylion unrhyw fesurau lliniarol yn y CRIA. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal CRIAs fel rhan o broses yr asesiad effaith integredig (AEI). Yn eu [Cynllun Hawliau Plant yn 2021](#), mae Llywodraeth Cymru eu hunain yn disgrifio CRIAs fel "yr offeryn mae disgwyl i swyddogion ei ddefnyddio i gefnogi Gweinidogion Cymru i sicrhau bod dyletswydd sylw dyledus yn cael ei chyflawni", a nodir yn y Cynllun y dylid cyhoeddi CRIAs ar ôl eu cwblhau.
- Dylai hawliau dynol plant fod yn weladwy yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru, ac er gwaethaf y ffaith bod Trysorlys Llywodraeth Cymru yn nodi bod hawliau dynol plant wedi bod yn ffactor allweddol mewn asesiadau effaith integredig strategol ers dros ddegawd, mae esiamplau diweddar, proffil uchel o benderfyniadau cyllidebol a wnaed heb ddarparu CRIAs yn gyhoeddus.
- Enghraifft ddiweddar o benderfyniadau a wnaed heb gynhyrchu CRIA oedd dod â'r arian i ben ar gyfer Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru - SchoolBeat. Mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau

wrthym bod y penderfyniad wedi ei wneud ar lefel polisi a chyllidebol heb CRIA. Bydd y penderfyniad hwn yn gadael ysgolion heb gefnogaeth ddigonol a dysgwyr heb addysg hanfodol.

- [Enghraifft uchel ei phroffil o Lywodraeth Cymru yn methu â chyflawni eu dyletswydd o dan y gyfraith i ystyried hawliau dynol plant mewn penderfyniadau](#) oedd dileu'r ddarpariaeth prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol yn 2023. Dyfarniad yr Uchel Lys oedd bod y penderfyniad yn anghyfreithlon oherwydd ei fod yn mynd yn groes i Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 a Deddf Cydraddoldeb 2010, wedi i ddau deulu sbarduno adolygiad barnwrol.

Ein galwad: Rydyn ni am weld Llywodraeth Cymru yn defnyddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant wrth gyllidebu a'r broses o adolygu penderfyniadau cyllidebol mewn perthynas â hawliau plant yn cael ei gwneud yn dryloyw, i'n galluogi ninnau ac eraill i alw Llywodraeth Cymru i gyfri. Wrth wneud hynny, bydd y Llywodraeth yn gallu canfod unrhyw effeithiau anfwriadol ar fywydau plant yn sgîl penderfyniadau cyllidebol, a sicrhau ein bod ni'n mwyafu'r holl adnoddau sydd ar gael er mwyn sicrhau bod plant yn byw bywydau hapus, iach a diogel yng Nghymru.

Yn ymarferol, byddai hynny'n golygu bod Llywodraeth Cymru yn ystyried y math canlynol o ymholiadau:

(Mae'r wybodaeth isod wedi'i chymryd o [ganllaw Llywodraeth yr Alban – Mabwysiadu hawliau dynol plant](#))

- *Sicrhau bod digon o adnoddau i gyflwyno gwasanaethau a rhaglenni sy'n hanfodol i gynnal hawliau plant;*
- *A yw dyraniadau o fewn y gyllideb yn rhoi blaenoriaeth i gau'r bwlch rhwng gwahanol grwpiau o blant o ran mwynhau eu hawliau (a sut mae hynny'n digwydd);*
- *I ba raddau mae'r adnoddau sydd ar gael yn cael eu cymhwyso ar sail egwyddorion 'gwerth gorau', megis lleihau gwastraff a sicrhau bod dyletswyddau gwerth gorau yn cael eu rhoi ar waith ar draws holl wariant y gyllideb;*
- *A yw deilliannau hawliau plant yn cael eu mesur, eu cysylltu ag adnoddau ariannol, ac yn cael eu cyflawni trwy ddyrannu'r adnoddau ariannol hynny (a sut mae hynny'n digwydd);*
- *A oes adnoddau digonol yn eu lle ar gyfer gwasanaethau pontio a fydd yn golygu bod modd i blant gael cefnogaeth briodol wrth symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.*

Meysydd blaenoriaeth ar gyfer y gyllideb

Mae'r canlynol yn ddetholiad o feysydd rydyn ni'n eu gweld fel blaenoriaethau ar gyfer y gyllideb yn y dyfodol. Yn sicr dyw hon ddim yn rhestr hollgynhwysol, ond mae'n cynnwys meysydd sy'n cael eu codi'n barhaus gyda ni fel swyddfa gan blant a chan y rhai sy'n gweithio gyda nhw ac yn gofalu amdany'n nhw.

Taclo Tlodi Plant

- Cyflawni'r Strategaeth Tlodi Plant. Dydyn ni ddim yn teimlo bod y Fframwaith Monitro presennol a gynigiwyd yn ddigon da i gyflawni'r Strategaeth. Mae hyn yn galw am gynllun gweithredu cynhwysfawr, sy'n cyflwyno targedau a chanlyniadau mesuradwy, yn unol ag argymhelliad Sylw Terfynol Pwyllgor y CU yn 2023. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi argymhell yn eu [adroddiad Amser am Newid – Tlodi yng Nghymru](#) bod y Strategaeth yn cael ei hadnewyddu i gynnwys camau gweithredu CAMPUS a chyfres o fesurau perfformiad fydd yn sicrhau cyflawni effeithiol. Er ein bod yn cydnabod bod llawer o'r grymoedd a fydd yn helpu i liniaru tlodi yng Nghymru yn gorffwys ar lefel Llywodraeth y Deyrnas Unedig, rydyn ni'n gwybod bod yna rai camau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd, a'i bod yn gwneud hynny. Mae angen i ni sicrhau bod y buddsoddiad hwn yn cyrraedd y rhai sydd â'r angen mwyaf, a heb fframwaith monitro manwl, mae'n amhosibl canfod a yw buddsoddi miliynau yn cael yr effaith a ddymunir. Mae absenoldeb fframwaith hefyd yn cyfyngu arnom ni ac eraill o ran galw Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Diwygio ADY ac Addysg

- Rhaid i'r gyllideb hon wneud popeth posibl i flaenoriaethu'r rhai sydd â'r angen mwyaf am gefnogaeth yn yr ysgol. Rydyn ni'n ymwybodol o enghreifftiau o ohebiaeth gan ysgolion ac awdurdodau lleol yn datgan wrth ysgolion a theuluoedd bod toriadau'n cael eu gwneud i'r ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol, ac na allan nhw wneud dim am y peth. Dyma enghraifft o ddyfyniad o un o'r llythyron hyn: "mae toriadau i gyllidebau yn golygu y bydd plant yn derbyn llai o gefnogaeth, llai o ddarpariaethau a llai o gyfleoedd, a does gennym ni ddim dewis ond gwneud hyn; yn syml iawn, does dim arian i ni barhau". Bydd hyn yn ddiamau yn codi ofn ar deuluoedd. Mae hefyd yn destun pryder yng nghyd-destun ffigurau presenoldeb ac achosion o ddadgofrestru.
- Mae'n rhaid gwneud mwy i daclo costau'r diwrnod ysgol, a chostau trafndiaeth i'r ysgol ac oddi yno ar gyfer plant sy'n wynebu cost ariannol am hynny.
- Nid yw uchelgeisiau'r Ddeddf ADY yn cael eu cyflawni ar draws Cymru ar hyn o bryd. Mae rhaid i ni flaenoriaethu cyllid ar gyfer hyn. Rydyn ni'n gweld enghreifftiau'n rheolaidd yn ein gwaith achosion o blant yn cael eu rhoi ar amserlenni cyfyngedig, neu o ddarparu fawr ddim cefnogaeth ystyrlon o gwbl, gan fod y ddarpariaeth, yn syml, ddim ar gael yn yr ardal leol.

Trafnidiaeth

- Dylai trafndiaeth ar drenau a bysiau fod yn ddi-dâl i bob plentyn. Byddai symudiad o'r fath yn codi pwysau ariannol oddi ar ysgwyddau teuluoedd sy'n cael trafferth ymdopi, yn cysylltu pobl ifanc â chyfleoedd addysg, gwaith, hyfforddiant, gweithgareddau adloniant a chymdeithasu. Byddai hefyd yn annog defnydd o ddulliau trafndiaeth mwy cynaliadwy.
- Roedd adroddiad diweddar y [Pwyllgor Deisebau Rhyddid i Ffynnu](#) yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru "gyflwyno uchelgais glir ar gyfer darparu trafndiaeth gyhoeddus am ddim i bobl ifanc ar y cyfle cynharaf".

Natur 'fyrdymor' y cyllid

Er ein bod yn derbyn bod anawsterau mewn perthynas â phryd mae Llywodraeth Cymru yn derbyn cadarnhad ynghylch swmp ei grant, rydyn ni'n pryderu am ganlyniadau bod heb ragolygon a chynlluniau tymor hir. Mae perygl ein bod yn rhoi platar dros faterion pwysig sy'n effeithio ar blentyndod yng Nghymru.

I roi un enghraifft o natur fyrdymor cyllid, fe welson ni'n ddiweddar wybodaeth a rannwyd am y *Grant Arloesi ynghylch Tlodi Plant a Chefnogi Cymunedau*:

- Roedd gan ymgeiswyr gyfnod o un mis o ddyddiad yr e-bost gwreiddiol i gwblhau'r cais (y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 14 Gorffennaf), ac mae'n rhaid i'r gweithgaredd a ariannir gael eu gyflwyno'n llawn erbyn 31 Mawrth 2025. Ni fydd cyllid ar gael tan 19 Awst ar y cynharaf. Disgrifir y grant fel cyllid "i alluogi arloesi a chydweithio rhwng sectorau a/neu bartneriaethau rhanbarthol ar fater tlodi plant... dylid dangos sut bydd plant, pobl ifanc a theuluoedd sydd mewn tlodi yn elwa o'r trefniant gweithio ar y cyd ychwanegol a ariannir â grant yn y tymor hwy."
- Mae'n anodd gweld sut gall y dull gweithredu hwn wreiddio trefniant ariannu cynaliadwy tymor hir i fynd i'r afael â'r mater cymdeithasol anferth hwn. Er bod y cyllid hwn yn sicr i'w groesawu, mae'n dangos y rhwystrau y mae rhai sydd am gyflwyno ceisiadau yn eu hwynebu pan fydd y terfyn amser yn eithriadol o dynn, ac mae cyllid ar gael am gyfnod byr iawn yn unig.

Beth mae Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn yn ei argymhell

- O dan erthygl 44 o CCUHP, mae rhwymedigaeth ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i gyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor ar gynnydd rhoi'r Confensiwn ar waith. Yn 2023, cyhoeddodd Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn eu Sylwadau Terfynol (eu hargymhellion) ar adroddiad diweddaraf y Deyrnas Unedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyhoeddi ei hymateb i'r Sylwadau Terfynol perthnasol.
- Mae Argymhelliad 11 yn y Sylwadau Terfynol yn arbennig o berthnasol ac yn argymhelliad rydyn ni'n cytuno'n llwyr ag ef:

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y parti Gwladol yn ymgorffori dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant ym mhroses gyllidebu'r Wladwriaeth ym mhob un o awdurdodaethau'r parti Gwladol, y tiriogaethau tramor a dibyniaethau'r Goron, a hefyd yn:

(a) Rhoi system dracio ar waith ar gyfer dyrannu, defnyddio a monitro adnoddau i blant, gyda golwg ar ddileu anghysondebau a sicrhau tegwch, gan asesu sut mae buddsoddiadau ym mhob sector yn gweithredu er lles pennaf plant;

(b) Cyflwyno dyraniadau cyllidebol ar gyfer plant mewn sefyllfaoedd difreintiedig a sicrhau bod mesurau cyni ddim yn effeithio ar blant;

(c) Mewn sefyllfaoedd o argyfwng economaidd, sicrhau na roddir mesurau ôl-gyrchol ar waith heb fodloni'r gofynion a nodir ym mharagraff 31 o sylw cyffredinol Rhif 19 y Pwyllgor (2016) ar wireddu hawliau plant, gan gynnwys bod plant yn cyfranogi yn y broses o wneud penderfyniadau yng nghyswllt mesurau o'r fath...

...(e) Sicrhau cyllidebu tryloyw a chyfranogol y gall cymdeithas sifil, y cyhoedd a phlant gyfranogi'n effeithiol ynddo.

Craffu gan blant a phobl ifanc eu hunain a'u cyfranogiad yn y broses gyllidebu

Er mwyn sicrhau bod y gyllideb hon yn ymateb i anghenion plant a phobl ifanc, rydyn ni'n galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod barn a phrofiadau plant yn rhan ganolog o lunio'r gyllideb ddrafft hon. Gall sefydliadau, gan gynnwys ein sefydliad ni, ddarparu tystiolaeth werthfawr gan blant i gefnogi'r gwaith yma.

Rydyn ni'n galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu gwneud yn rhan benodol o ymrwymadau cyllidebol, er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu gweld yn glir bod y Llywodraeth wedi ystyried ac ymateb i farn a phrofiadau plant, a bod plant, a'r rhai sy'n gweithio gyda nhw a throstyn nhw, yn gallu galw Llywodraeth Cymru i gyfri yn ddigonol.